Cyngor Bro Llanfairpwllgwyngyll
Cofnodion Cyfarfod 25 Ebrill 2017

Presennol: A. Mummery, (Cadeirydd), J. Roberts, A. Jones, D. Williams, A. Williams, S. Edwards, G. Parry, G. C. Jones, Meirion Jones, Mervyn Jones,

Dafydd Owen (clerc)

		Gweithred	Dyddiad
1.0	**Ymddiheuriadau**:		
	E. Parry, H. Huws, D. James,		
	Cychwynnodd J. Roberts gyda llongyfarch A. Mummery ar hanner canmlwyddiant fel Cynghorydd ar y Cyngor Bro, a nodwyd fod casgliad wedi ei wneud ar ei ran gan yr aelodau, a diolchwyd iddo am ei wasanaeth.		
2.0	**Datganiadau Diddordeb**.		
	Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau diddordeb		
3.0	**Cyfrifon Mis Ebrill 2017**		
3.1	Cytunwyd i wneud taliadau i Aon (Yswiriant) a rhoi rhodd i Gronfa Eisteddfod Genedlaethol Môn ar gyfrifon Mis Ebrill.		
3.2	Nodwyd derbyniad a chyflwyniad y casgliad i A. Mummery.		
3.3	J. Roberts yn cynnig, A. Jones yn eilio. Derbyniwyd fel rhai cywir.		
4.0	**Cynrychiolwyr Pwyllgorau Allanol**		
4.1	G. C. Jones wedi mynychu cyfarfod Unllais ar 30/03/17 ac yn nodi ei fod yn edrych yn debygol fyd y Cyngor Bro yn cael caniatâd i osod baneri ar bostiai goleuadau stryd		
4.2	G. C. Jones hefyd yn nodi fod yno bryderon am safon yr iaith Gymraeg gyda'r archwiliwr allanol.		
4.3	G. C. Jones yn nodi mi fydd angen i'r Cyngor Bro benodi Pencampwr Iaith Gymraeg. Cytunwyd i drafod hwyrach ymlaen ond mae angen fwy o arweiniad ar ddyletswyddau a chyfrifoldebau.		
4.4	G. C. Jones yn nodi mi fydd cyfarfod nesaf Fforwm Cyswllt Cynghorau Tref a Chymuned i'w gynnal ym Mis Mehefin		
5.0	**Cyflwyno a chadarnhau cofnodion cyfarfod 28 Mawrth 2017**		
5.1	J. Roberts yn cynnig, G. Parry yn eilio. Derbyniwyd fel rhai cywir.		
6.0	**Materion yn codi o'r cofnodion**		
6.1	Twr Marcwis - A. Mummery wedi trafod a swyddog ym Mhlas Newydd ac yn nodi bod bwriad i wneud gwaith i wella'r Twr ac yn edrych am grantiau. A Mummery i ddiweddaru fel mae'n derbyn unrhyw wybodaeth	**A. Mummery**	
6.2	Plac ar dy Kyffin Williams - Meirion Jones wedi cysylltu â'r Ysgol Gynradd ac yn nodi fod Cyfarfod Blynyddol Ymddiriedolaeth Kyffin ar 19/05/17. Cytunwyd i osod 1:30yh ar y 19/05/17 fel amser i ddadorchuddio'r plac. Meirion a Stephen i barhau i weithredu.	**Meirion Jones a S. Edwards**	**Mai 2017**
6.3	Llwybr beicio - Swyddog Priffyrdd y Cyngor Sir yn nodi fod wedi disgwyl i'r flwyddyn ariannol newydd ddod cyn parhau a'r gwaith. Disgwylir iddo gael ei gwblhau cyn gynted â phosib.	**D. Owen**	**30/05/17**
6.4	Grant memorials fund am waith ar y cloc - A. Jones wedi derbyn amcan bris. Clerc i wneud ymholiadau pellach gyda'r War Memorials Fund i weld pa ganllawiau sydd ganddynt ar gyfer ceisio am grant.	**D. Owen**	**30/05/17**
6.5	Tagfeydd traffic Ffordd Caergybi/Ffordd Penmynydd - Clerc wedi bod mewn cysylltiad ag Adran Priffyrdd y Cyngor Sir, ond hen dderbyn ymateb boddhaol hyd yn hyn. Clerc I ddilyn i fyny.	**D. Owen**	**30/05/17**
6.6	Gwelliannau Pentrefol - A. Mummery am wneud ymholiadau gyda Medrwn Môn am arweiniad ar sefydlu grŵp cymunedol ar gyfer ceisio am grantiau. Cytunwyd ei rhoi ar		

	raglen y Cyngor Newydd wedi'r etholiad		
6.7	Pryderon Parcio gyda chyfarfodydd Slimming World yn y Pentref - Cytunwyd i ofyn i blismonais lleol alw heibio i gael gair gyda'r defnyddwyr. A. Maer wedi cael e-bost gan Tracey Llewelyn (Safer Communities Officer) ac am ofyn iddi edrych mewn i'r mater.	**A. Mummery**	**30/05/17**
6.8	Clwb Cyfrifiaduron -Wedi gofyn i'r clerc edrych fewn i brisiau i uwchraddio'r wifi, Mae'r clerc wedi cael pris o ychydig dros £40 y mis. A. Jones yn cynnig, S. Edwards yn eilio i archebu'r wi fi newydd	**D. Owen**	**30/05/17**
6.9	Coed yn gordyfu yn y Clwb Bowlio - Nodwyd bod E. Parry heb fod ar y safle i wneud y gwaith hyd yn hyn. Clerc i'w hysbysu i'w atgoffa	**D. Owen**	**30/05/17**
6.10	Grant Horizon - Mervyn Jones am weithredu ar y cais ac i'w gylchredeg i ofyn am fewnbwn i liwio'r cais ac am arweiniad ar sut i ddenu pobl i'r Neuadd Goffa. Nodwyd Mervyn bod modd ceisio am fwy na £5,000 gyda'r grant. Cytunwyd i Stephen Edwards baratoi hysbyseb ar gyfer y Neuadd ar gyfer yr Etholiad.	**Mervyn Jones a S. Edwards**	**30/05/17**
6.11	Llanast yn y Gors - S. Edwards yn cynnig, Meirion Jones yn eilio i archebu biniau ychwanegol i'r Gors. Cytunwyd i S. Edwards gael prisiau ar gyfer biniau a'r clerc i holi Biffa am brisiau gwasanaeth casglu sbwriel	**S. Edwards a D. Owen**	**30/05/17**
7.0	**Cyflwyno a chadarnhau cofnodion Pwyllgor Fynwent 11 Ebrill 2017**		
7.1	G. Parry yn cynnig, J. Roberts yn eilio. Derbyniwyd fel y rhai cywir		
8.0	**Materion yn codi o'r cyfarfod**		
8.1	A. Maer yn nodi ei fod wedi derbyn sawl cwyn am denant y tir pori ger y Fynwent. Clerc wedi trafod gyda'r tenant ac mae'n cadarnhau ei fod am fod mwy parchus. Cytunwyd i ofyn i Golin archebu clo i osod ar y giât bellaf yn y fynwent.	**D. Owen**	**30/05/17**
9.0	**Cyflwyno a chadarnhau cofnodion Pwyllgor Cyllid 11 Ebrill 2017**		
9.1	A. Mummery yn cynnig, J. Roberts yn eilio. Derbyniwyd fel y rhai cywir		
10	**Materion yn Codi o'r cofnodion**		
10.1	Gemau ynysoedd - Clerc i wneud ymholiadau i weld os oes unrhyw un lleol yn cymryd rhan ar ran Ynys Môn. J. Roberts yn nodi fod O. Jones yn y Tîm Pêl Droed ar ran Ynys Môn. Clerc i wneud ymholiadau bellach	**D. Owen**	**30/05/17**
11.0	**Ceisiadau Cynllunio**		
11.1	31C312B/VAR Cais llawn o dan Adran 73 i ddiwygio amod (05) o ganiatâd cynllunio rhif 31C312A/DA (Cais manwl ar gyfer codi annedd) er mwyn codi ffens 1.8m ynghyd a chau dreif personol yn 60 Stad Tŷ Croes, Llanfairpwll - Dim sylw		
12	**Gohebiaeth**		
12.1	Cyngor Sir - Canlyniad Etholiad Diwrthwynebiad - Derbyn y wybodaeth		
12.2	Llythyr gan Medwyn Owen - Archwilio offer meysydd chwarae - Mater i Bwyllgor Meysydd Chwarae		
12.3	Awyr Las - Llythyr diolch - Derbyn y wybodaeth		
12.4	Llythyr John. D. Roberts - Archwiliad cyfrifon - J. Roberts yn cynnig G. C. Jones yn eilio, cytunwyd i'w apwyntio fel archwilydd mewnol ar sail flynyddol	**D. Owen**	**30/05/17**
13	**Materion Brys**		
13.1	Clerc i wneud ymholiadau os oes cymal ar gyfer amserlen cynnal cyfarfod ar ôl etholiad	**D. Owen**	**30/05/17**
13.2	Clerc i dderbyn a dosbarthu copi o'r cod ymddygiad i'r cynghorwyr	**D. Owen**	**30/05/17**
13.3	J. Roberts yn gofyn i'r clerc baratoi rhestr yn cadarnhau aelodau o bwyllgorau'r Cyngor Bro erbyn cyfarfod Blynyddol Mai	**D. Owen**	**30/05/17**
	G. C. Jones yn nodi mi fydd angen rhoi contract cyflogaeth y clerc ar raglen cyfarfod Cyngor Bro yn fuan.	**D. Owen**	**25/04/17**

Dyddiad Cyfarfod Nesaf - Nos Fawrth 30 Mai 2017 am 7.00yh yn y Neuadd Goffa

Arwyddwyd…… (Cadeirydd) …… Dyddiad